

Gwasanaethau Radioleg: Y Diweddaraf am Gynnydd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2590A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn ei rinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'n sylweddol y ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau radioleg drwy arweinyddiaeth gref a defnyddio modelu galw a capasiti i nodi a gweithredu atebion er mwyn ymateb i'r galw cynyddol a'r newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau a llwybrau cleifion. Wrth i wasanaethau ehangach ddechrau adfer bellach ar ôl y pandemig, mae gan y galw a ataliwyd o ganlyniad i oedi wrth gael triniaeth y potensial, serch hynny, i greu heriau i'r gwasanaethau radioleg.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 5

Argymhellion 6

Atodiadau

Atodiad 1 – Y cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion yn 2017 8

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Canfu ein hadroddiad yn 2017 ar wasanaethau radioleg fod y Bwrdd Iechyd yn wynebu risgiau o ran bodloni'r galw presennol ac yn y dyfodol am wasanaethau radioleg. Canfuom fod gallu'r Bwrdd Iechyd i reoli'r galw cynyddol am y gwasanaeth yn cael ei lesteirio gan heriau staffio, a bod angen gwella amseroedd aros ac adrodd ar amseroedd gweithredu. Hefyd, roedd gwendidau yn y broses cynllunio strategol ac ariannol.
- 2 Tynnodd adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2018 ar Wasanaethau Radioleg yng Nghymru sylw hefyd at nifer o faterion sy'n bygwth cynaliadwyedd gwasanaethau radioleg ledled Cymru. Mae'r materion hyn yn cynnwys heriau staffio; offer sy'n heneiddio ac a gaiff ei danddefnyddio; gwendidau mewn systemau TG; arosiadau hir am ganlyniadau archwiliadau; a chyfleoedd i wella gwaith craffu a'r broses cynllunio strategol.
- 3 Mae'r ddau adroddiad yn nodi argymhellion neu gamau y dylai'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â nhw i wella cynlluniau'r gweithlu, rhaglenni ailosod offer, modelu galw, cynyddu capasiti i'r eithaf, gwybodaeth am berfformiad a threfniadau monitro. Nododd adroddiad cenedlaethol 2018 heriau ychwanegol hefyd a oedd yn gofyn am dull gweithredu cydgysylltiedig gan GIG Cymru.
- 4 Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad o Fwriad o ran Delweddu, yn nodi ymrwymiad i fabwysiadu dull strategol cydgysylltiedig newydd o ddatblygu gwasanaethau delweddu effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel. Sefydlwyd Bwrdd Strategaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol yn 2019 i oruchwyllo'r gwaith o weithredu'r Datganiad o Fwriad o ran Delweddu ac i hybu arloesedd a ffyrdd newydd o weithio mewn gwasanaethau delweddu yng Nghymru. Mae Bwrdd Strategaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol wedi bod yn gwneud gwaith i asesu'r cynnydd a wnaed gan GIG Cymru.
- 5 Ers i ni gyhoeddi ein hadroddiadau lleol a chenedlaethol ar wasanaethau radioleg, mae pandemig COVID-19 wedi newid y dirwedd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ynddi, gan achosi heriau a chyfleoedd newydd o ran darparu gwasanaethau. Hefyd, agorodd y Bwrdd Iechyd Ysbyty Athrofaol y Faenor ym mis Tachwedd 2020, gan arwain at fodolau darparu gwasanaethau a llwybrau cleifion gwahanol.
- 6 Gwnaethom gynnal asesiad lefel uchel o'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'n hargymhellion. Yn ystod y gwaith hwn, gwnaethom y canlynol:
 - gofyn i'r Bwrdd Iechyd gwblhau hunanasesiad o gynnydd;
 - adolygu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r hunanasesiad, yn ogystal â phapurau bwrdd a phwyllgorau;
 - cyfweld â nifer o swyddogion i drafod y cynnydd, materion cyfredol, a heriau yn y dyfodol.

- 7 Ceir crynodeb o'n canfyddiadau yn yr adran ganlynol a darperir gwybodaeth fanylach yn **Atodiad 1**.

Ein canfyddiadau

- 8 Ein casgliad cyffredinol yw bod Bwrdd Iechyd **wedi gwella'n sylweddol y ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau radioleg drwy arweinyddiaeth gref a defnyddio modelu galw a capasiti i nodi a gweithredu atebion er mwyn ymateb i'r galw cynyddol a'r newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau a llwybrau cleifion. Wrth i wasanaethau ehangach ddechrau adfer bellach ar ôl y pandemig, mae gan y galw a ataliwyd o ganlyniad i oedi wrth gael triniaeth y potensial, serch hynny, i greu heriau i'r gwasanaethau radioleg.**
- 9 I grynhoi, nodir statws y cynnydd o'i gymharu â phob un o'r argymhellion blaenorol yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: statws argymhellion 2017

Cyfanswm yr argymhellion	Gweithredwyd	Gweithredu'n parhau	Dim camau gweithredu	Disodlwyd
9	7	1	0	1

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 10 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion oherwydd y rhesymau canlynol:
- mae Ysbyty newydd Athrofaol y Faenor wedi arwain at ragor o offer radioleg, a thrwy hynny mae'r capasiti i ddelweddu yn fwy. Cyn agor yr ysbyty, lleihaodd y Bwrdd Iechyd amseroedd aros drwy ddefnyddio'r capasiti ychwanegol a ddarperid gan wasanaethau a drefnwyd ar gontractau allanol ac mae'n parhau i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn mewn ymateb i amseroedd aros cynyddol a achosir gan COVID-19.
 - mae'r gwasanaeth wedi datblygu cynlluniau ategol i weithredu'r newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir a llwybrau cleifion o ganlyniad i agor Ysbyty Athrofaol y Faenor.
 - mae tîm arweinyddiaeth gref yn y gyfarwyddiaeth radioleg, sydd â gweledigaeth glir i hybu atebion arloesol a gwelliannau.
 - mae'r gyfarwyddiaeth radioleg wedi llwyddo i recriwtio ar gyfer swyddi radiograffyddion, ac mae newidiadau i batrymau gwaith staff a rhagor o oriau gweithredu radioleg wedi gwella cynaliadwyedd y gwasanaethau delweddu.
 - pan fo heriau'n parhau wrth recriwtio radiolegwyr, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio cau rhan o'r bwloch â swyddogaethau uwch-ymarferwyr radiograffeg.

- mae gan y gyfarwyddiaeth radioleg berthnasoedd da â chyfarwyddiaethau eraill ac mae'n cyfathrebu â nhw yn rheolaidd i lywio'r galw a'r capasiti, ac i sicrhau bod atgyfeiriadau cleifion yn cael eu blaenoriaethu'n briodol ar gyfer delweddu diagnostig.
- mae trefniadau priodol i sicrhau bod y perfformiad yn cael ei fonitro'n weithredol.

11 Wrth gynnal yr asesiad hwn o'r diweddaraf am gynnydd, gwnaethom nodi un risg newydd mewn cysylltiad â gwasanaethau radioleg ac fe'i nodir yn **Arddangosyn 2**. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn parhau i oruchwylio'r risg hon.

Arddangosyn 2: risg newydd a nodwyd yn ystod ein gwaith

Risg newydd	
Maes	Disgrifiad
Cynnydd mewn galw yn sgil COVID-19 wrth iddo atal y galw yn ystod y brig cyntaf	Ceir lefel anhysbys o alw cronedig o ganlyniad i gleifion sy'n cael triniaeth ohiriedig neu gleifion nad oeddent yn ymweld â'u meddyg teulu yn ystod y pandemig, a allai effeithio'n sylweddol ar allu'r gwasanaeth radioleg i ymateb i atgyfeiriadau ac adrodd ar ddelweddau mewn modd amserol.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Argymhellion

12 Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhelliad blaenorol nad yw wedi ei weithredu'n llawn eto. Nodir hyn yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: argymhellion blaenorol nad ydynt wedi eu gweithredu'n llawn eto

Nid yw argymhelliad 2017 wedi ei weithredu'n llawn eto

- A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau pellach i geisio datblygu ei ddull o gasglu gwybodaeth am brofiad y claf ar ei holl safleoedd a cheisio adnabod unrhyw dueddiadau cyffredin y gellir gweithredu arnynt i wella'r gwasanaeth.

Atodiad 1

Y cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion yn 2017

Arddangosyn 4: asesu'r cynnydd

Argymhellion i fynd i'r afael â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A1 Datblygu cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn cyrraedd targedau ar gyfer amseroedd aros yn y tymor byr, a sut y bydd y gwasanaeth radioleg yn parhau i leihau amseroedd aros wrth fynd ymlaen, gan ddisgrifio:</p> <ol style="list-style-type: none">ei ffordd o ddefnyddio meddygon locwm;ei ffordd o ddefnyddio gwasanaethau allanol i gynnal archwiliadau;	Gwyrdd	<p>Amlygodd ein hadroddiad yn 2017 fod nifer sylweddol² o gleifion wedi aros mwy nag wyth wythnos am sganiau diagnostig, a bod perfformiad amseroedd aros i gleifion sy'n cael sganiau delweddu cyseinedd magnetig (MRI) a sganiau uwchsain nad ydynt yn rhai obstetrig wedi dirywio yn ystod 2016.</p> <p>Nododd ein hadolygiad lefel uchel o berfformiad amseroedd aros cyn y pandemig fod nifer y cleifion a oedd yn aros mwy nag wyth wythnos am sgan MRI, sgan tomograffeg gyfrifiadurol (CT) a sgan uwchsain nad yw'n obstetrig wedi gostwng yn ystod y misoedd ers ein hadroddiad blaenorol, ac ym mis Ionawr 2020, ni arhosodd unrhyw gleifion dros wyth wythnos³. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd hyn drwy:</p> <ul style="list-style-type: none">• llwyddo i recriwtio ystod o staff, ond yn enwedig radiograffwyr a sonograffwyr drwy ddilyn dewisiadau arloesol, megis ymgyrchoedd recriwtio rhyngwladol. Mae'r pwyslais bellach wedi symud i benodi i'r swyddi radiolegwyr ymgynghorol gwag sy'n weddill.

¹ Mae Gwyrdd yn nodi bod yr argymhelliad wedi ei gyflawni; mae Oren yn nodi camau gweithredu sy'n parhau i fynd i'r afael â'r argymhelliad; mae Coch yn nodi y gwnaed cynnydd annigonol neu na wnaed cynnydd o gwbl; ac mae Glas yn nodi bod yr argymhelliad wedi ei ddisodli.

² Ar adeg ein hadroddiad blaenorol, ym mis Awst 2016, roedd 594 o gleifion yn aros dros wyth wythnos am sgan MRI, arhosodd 30 o gleifion dros wyth wythnos am sgan CT, ac arhosodd 1,276 o gleifion dros wyth wythnos am sgan uwchsain nad yw'n obstetrig.

³ StatsCymru, Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi

Argymhellion i fynd i'r afael â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>c. sut y gall sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae atgyfeirwyr yn pennu blaenoriaeth ar ffurflenni;</p> <p>b. • unrhyw gamau eraill a fydd yn helpu'r Bwrdd lechyd i gyrraedd targedau.</p>		<ul style="list-style-type: none"> • lleihau'r ddibyniaeth hirdymor ar staff locwm. Mae'r gwasanaeth radioleg yn parhau i wneud defnydd effeithiol ac effeithlon o staff locwm yn lle staff sydd ar absenoldeb tymor byr. • gwneud defnydd parhaus o sganiau CT ac MRI a drefnir ar gontractau allanol i gynyddu'r capasiti delweddu a ddarperir gan wasanaethau symudol, ysbyty preifat, a chanolfan ddiagnostig. Caiff y gwasanaethau hyn eu rheoli a'u monitro drwy gytundebau lefel gwasanaeth. • ceisio ateb priodol i gynyddu capasiti y sganiau uwchsain nad ydynt yn rhai obstetrig. Yn 2017, ymgysylltodd y Bwrdd lechyd â phartneriaid allanol ar gyfer gwasanaeth archwilio uwchsain ar gontract allanol, ond cafwyd pryderon sylweddol ynghylch llywodraethu clinigol a diogelwch cleifion â'r darparwr gwasanaeth. Yn lle hynny, penderfynodd y Bwrdd lechyd gyflogi staff locwm i ddarparu staff ychwanegol i gyflenwi absenoldeb a bydd yn parhau â'r trefniad hwn yn y tymor canolig. Fodd bynnag, mae'r cyfarwyddiaethau'n gweithio ar gynlluniau i hyfforddi a chyflogi rhagor o sonograffwyr. • gweithio'n agos gydag atgyfeirwyr i sicrhau cysondeb o ran blaenoriaethu cleifion. Mae'r gwasanaeth radioleg yn mynd ati'n weithredol i archwilio ffurflenni cais a gyflwynwyd gan atgyfeirwyr er mwyn sicrhau bod yr achosion mwyaf brys yn cael eu blaenoriaethu gan barhau i gynnal cyfradd brosesu atgyfeiriadau llai brys. • blaenoriaethu canserau brys a amheuir, a gynorthwyr drwy benodi dau 'lywiwr' llwybr canser i reoli a blaenoriaethu ceisiadau brys pan fo amheuaeth o ganser. <p>Datblygodd y Bwrdd lechyd Gynllun Cynaliadwyedd Radioleg yn 2017-18. Ni wnaethom adolygu'r Cynllun Cynaliadwyedd Radioleg oherwydd ei fod wedi ei ddisodli gan Fodel Gwasanaeth Radioleg Dyfodol Clinigol 2019 sy'n nodi sut y byddai'r gwasanaeth radioleg yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r</p>

Argymhellion i fynd i'r afael â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
		<p>Strategaeth Dyfodol Clinigol ar gyfer newid y modd y darperir gofal ar draws y Bwrdd Iechyd. Noda'r Strategaeth Dyfodol Clinigol newidiadau sylweddol i ddarparu mwy o ofal yn nes at gartref, creu rhwydwaith o ysbytai lleol er mwyn darparu gwasanaethau diagnostig a thriniaeth arferol, a chanoli gwasanaethau gofal arbenigol a chritigol yn Ysbyty newydd Athrofaol y Faenor.</p> <p>Roedd y Model Gwasanaeth Radioleg Dyfodol Clinigol yn cynnwys modelu ar gyfer galw a chapasiti. Nododd y modelu ganlyniadau newidiadau i lwybrau cleifion a'r twf disgwylledig yn y galw am wasanaethau delweddu. Nododd y modelu hefyd y capasiti cynyddol o'r offer sganio ychwanegol (o ganlyniad i agor Ysbyty Athrofaol y Faenor) ac yn sgil cynyddu oriau gweithredu radioleg ar draws safleoedd ysbytai y Bwrdd Iechyd. Nododd y Model oblygiadau i'r gwasanaeth radioleg, gan gynnwys y staff ychwanegol a'r cymysgedd sgiliau sydd eu hangen.</p> <p>Roedd disgwyl i Ysbyty Athrofaol y Faenor agor ym mis Mawrth 2021, ond agorodd bedwar mis yn gynharach na'r disgwyl i helpu'r Bwrdd Iechyd i ymateb i bwysau'r gaeaf a phandemig COVID-19.</p> <p>Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau delweddu, o ganlyniad i'r gostyngiad mewn diagnosteg a thriniaeth nad yw'n frys. Er bod niferoedd sylweddol o gleifion wedi aros mwy nag wyth wythnos yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mai 2021 (y data diweddaraf sydd ar gael ar adeg llunio'r adroddiad hwn), mae'r duedd yn dangos bod nifer y cleifion sy'n aros dros wyth wythnos yn gostwng. Fodd bynnag, ceir lefel anhysbys o alw cronodig erbyn hyn o ganlyniad i oedi i driniaeth cleifion neu oherwydd nad oeddent yn ymweld â'u meddyg teulu yn ystod y pandemig, a allai effeithio'n sylweddol ar allu'r gwasanaeth radioleg i ymateb i atgyfeiriadau ac adrodd ar ddelweddau mewn modd amserol yn ystod y misoedd nesaf, a'r blynyddoedd nesaf, o bosibl.</p>

Argymhellion i fynd i'r afael â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A2 Datblygu cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd ôl-groniadau o adroddiadau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy. Er enghraifft, drwy ddefnyddio gwasanaeth allanol dros y tymor byr wrth ddatblygu strategaeth dymor canolig a hir i ddelio â'r oedi.</p>	<p>Gwyrdd</p>	<p>Nododd ein hadroddiad yn 2017, er bod amseroedd gweithredu cyfartalog ar gyfer adrodd delweddau yn dda, fod rhai cleifion wedi aros am fisoedd lawer.</p> <p>Ers ein hadroddiad blaenorol, yn 2018, cyflwynodd y Bwrdd lechyd ddewis adrodd gartref ar gyfer radiolegwyr a oedd yn eu galluogi i gyflawni eu targedau adrodd ac yn ystod y pandemig buodd hyn yn gymorth iddynt allu cefnogi gwaith aciwt y tu allan i oriau.</p> <p>Mae swyddogaeth y radiograffydd adrodd wedi ei hehangu i gynyddu'r mathau o waith adrodd y gallant ei wneud, gan helpu i leihau rhywfaint o'r galw ar radiolegwyr. Mae gan swyddogaeth y radiograffydd adrodd gynllun swydd sy'n seiliedig ar 70% o waith adrodd, 20% o sesiynau moddol clinigol, a 10% o ddatblygiad proffesiynol parhaus/cefnogi sesiynau gweithgareddau proffesiynol. Mae radiograffwyr adrodd yn gallu gweithio'n hyblyg ac maent hefyd yn darparu gwasanaeth y tu allan i oriau.</p> <p>Dywedodd y Bwrdd lechyd wrthym fod radiolegwyr adrodd yn prosesu adroddiadau cleifion mewnol yn gyflym iawn ac o fewn 24 awr fel arfer. Mae amrywiad posibl mewn amseroedd adrodd o ddydd i ddydd, ond mae'r Bwrdd lechyd yn monitro amseroedd adrodd mewn cyfarfodydd perfformiad wythnosol er mwyn sicrhau bod ôl-groniadau adrodd yn cael eu rheoli.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd yn defnyddio gwasanaeth allanol hefyd ac yn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.</p> <p>Er bod y Bwrdd lechyd wedi llwyddo i recriwtio ar gyfer swyddi gwag, mae nifer o swyddi radiolegwyr ymgynghorol o hyd nad ydynt wedi eu llenwi oherwydd bod prinder radiolegwyr ledled y DU. O ganlyniad i hynny, mae'r Bwrdd lechyd yn archwilio systemau deallusrwydd artifisial i helpu i adrodd ar sganiau mwy rheolaidd, gyda'r potensial o ryddhau amser radiolegwyr i adrodd ar ddelweddau mwy cymhleth.</p>

Argymhellion i fynd i'r afael â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A3 Cyfathrebu a chydgyssylltu â chlinigwyr sy'n atgyfeirio:</p> <ol style="list-style-type: none"> wrth ddatblygu ac adolygu canllawiau ar atgyfeirio. Sicrhau bod yr holl staff radioleg a chlinigwyr sy'n atgyfeirio yn gallu cael gafael yn rhwydd ar fersiwn gyfredol o'r canllawiau; yn barhaus. Cryfhau'r ymgysylltu parhaus rhwng staff radioleg a chlinigwyr sy'n atgyfeirio, yn enwedig meddygon teulu, drwy amlinellu cynllun ymgysylltu erbyn 2018. Dylai'r cynllun hwn sicrhau bod fforwm digonol ar gyfer trafodaeth reolaidd ar newidiadau mewn gwasanaethau a all effeithio ar y gwasanaeth ac ar adborth gan atgyfeirwyr er mwyn helpu i reoli'r galw. 	<p>Gwyrdd</p>	<p>Nododd ein hadroddiad yn 2017 fod angen cryfhau'r cyfathrebu a'r cysylltiad â'r clinigwyr sy'n atgyfeirio.</p> <p>Fel yr amlinellir yn Argymhelliad 1, mae'r tîm radioleg wedi gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau atgyfeirio i ddatblygu canllawiau atgyfeirio delweddu. Yn 2019, cyfarfu ag arweinwyr meddygon teulu ar gyfer gofal sylfaenol i drafod canllawiau atgyfeirio, adrodd a blaenoriaethu. Datblygwyd y canllawiau a chytunwyd arnynt â chydweithwyr gofal eilaidd a sylfaenol. Wedi hynny, mae'r canllawiau wedi galluogi gostyngiad mewn sganiau amhriodol a fyddai wedi eu prosesu o'r blaen.</p> <p>Gall pob atgyfeiriwr a staff radioleg gael gafael ar y canllawiau atgyfeirio drwy wasanaeth gwe 'i-refer' ac mae canllawiau atgyfeirio ar wahân ar gyfer delweddu diagnostig cyhyrsgerberbydol ac uwchsain.</p> <p>Mae'r tîm radioleg wedi sefydlu cyfrif e-bost ac mae'n ei gynnal fel y gall meddygon teulu godi cwestiynau a chael arweiniad yn uniongyrchol. Caiff y cyfrif e-bost ei fonitro gan uwch-reolwyr radioleg sy'n gofyn i uwch-gydweithwyr a chlinigwyr am arweiniad cyn ymateb i'r meddyg teulu sy'n atgyfeirio. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn boblogaidd, yn enwedig gyda meddygon teulu, a dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod wedi arwain at ostyngiad yn nifer y sganiau diangen a wnaed.</p> <p>Dywedodd y gwasanaeth radioleg wrthym ei fod yn darparu sylwadau pan fydd yn teimlo bod patrwm o flaenoriaethu amhriodol.</p> <p>Fodd bynnag, mae rhwystredigaeth yn parhau o ran y System Wybodaeth am Radioleg (RADIS), ac er bod yr atgyfeiriadau'n cael eu cyflwyno'n electronig, mae angen argraffu a sganio atgyfeiriadau i RADIS o hyd cyn iddynt gael eu harchwilio.</p>

Argymhellion i fynd i'r afael â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau pellach i geisio datblygu ei ddull o gasglu gwybodaeth am brofiad y claf ar ei holl safleoedd a cheisio adnabod unrhyw dueddiadau cyffredin y gellir gweithredu arnynt i wella'r gwasanaeth.</p>	<p>Oren</p>	<p>Mae'r gyfarwyddiaeth radioleg wedi datblygu ei harolwg Mesur Profiadau a Adroddwyd gan Gleifion (PREM) ei hun a ddsberthir yn flynyddol ac a adroddir i'w chyfarfod Llywodraethu Clinigol a'r Grŵp Gweithredol Radioleg.</p> <p>Addaswyd y PREM diweddaraf i gynnwys tri chwestiwn yn ymwneud â COVID-19. Cwblhawyd 281 o arolygon ar draws y safleoedd yn ystod cyfnod o bythefnos ym mis Medi 2020. Er bod y sylwadau'n gadarnhaol i raddau helaeth, nodwyd rhai pwyntiau dysgu yn ymwneud â chyfathrebu â chleifion.</p> <p>Rhennir y gwersi a ddysgir o brofiadau cleifion drwy gyfarfodydd tîm, hysbysfyrddau, a chylchlythyr staff.</p> <p>Cydnabu'r Bwrdd Iechyd fod mwy o gyfleoedd cyfyngedig i gasglu data am brofiadau cleifion sy'n benodol i wasanaethau radioleg o Ysbyty Athrofaol y Faenor oherwydd bod mwyafrif y cleifion yn ddifrifol wael.</p> <p>Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym, yn ogystal â PREM y gyfarwyddiaeth gyfan, ei fod yn bwriadu i bob safle ysbyty lunio PREM ychwanegol sy'n benodol i'r safle, sy'n canolbwyntio ar faterion penodol a nodwyd ar y safle hwnnw. Hefyd, bydd pob safle yn ailgyflwyno blwch sylwadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o'i gymharu â'r argymhelliad hwn, teimlwn na allwn gau'r argymhelliad hwn nes bod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'r PREM sy'n benodol i'r safle ac ailgyflwyno'r blwch sylwadau. O ran dysgu, byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Bwrdd Iechyd yn nodi sut mae dysgu o sylwadau cleifion wedi gwneud gwahaniaeth ac wedi arwain at welliannau.</p>

Argymhellion i fynd i'r afael â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A5 Yn ystod y 12 mis nesaf, datblygu strategaeth radioleg, drwy ymgynghori â staff radioleg a gwasanaethau sy'n effeithio ar radioleg, a fydd yn disgrifio:</p> <ol style="list-style-type: none"> sefyllfa bresennol y gwasanaeth o ran y galw arno, ei gapasiti a'r adnoddau sydd ar gael; y sefyllfa y mae angen i'r gwasanaeth ei chyrraedd; sut y bydd y gwasanaeth yn cyflawni ei nodau. 	<p>Gwyrdd</p>	<p>Yn ein hadroddiad yn 2017, gwnaethom argymell bod y Bwrdd Iechyd yn nodi strategaeth radioleg mewn ymgynghoriad â'r staff.</p> <p>Fel yr amlinellir yn adran 'crynodeb o'r cynnydd' Argymhelliad 1, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Fodel Gwasanaeth Radioleg Dyfodol Clinigol yn 2019 sy'n cynnwys newidiadau i wasanaethau radioleg sy'n deillio o'r Strategaeth Dyfodol Clinigol ac agoriad Ysbyty Athrofaol y Faenor.</p> <p>Yn 2019-20, cynhaliodd y gyfarwyddiaeth radioleg broses ymgynghori ar wasanaethau radioleg ym mis Awst 2020. Diben yr ymgynghoriad oedd rhoi gwybodaeth a dewisiadau i staff a rhanddeiliaid allweddol gyda'r nod o wella cynaliadwyedd gwasanaethau delweddu sy'n gweithredu bob awr o'r dydd ar draws holl safleoedd y Bwrdd Iechyd. Cynhaliodd y gwasanaeth radioleg nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â staff radioleg, i'w cyfarwyddo ar y dewisiadau yn yr ymgynghoriad a chynhaliodd gyfarfodydd unigol yn ôl yr angen. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol i'r cynigion.</p> <p>Mae'r newidiadau a weithredwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad wedi ei gwneud yn haws cylchdroi staff ar draws holl safleoedd yr ysbyty oherwydd aliniad patrymau sifftiau.</p> <p>Fel y trafodwyd yn adran 'crynodeb o'r cynnydd' Argymhelliad 1, roedd angen radiograffwyr ychwanegol, a chyflymwyd ymarfer recriwtio oherwydd bod Ysbyty Athrofaol y Faenor wedi agor yn gynt na'r disgwyl. Mae'r gwasanaeth radioleg yn cydnabod bod rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch lefel y galw am wasanaethau delweddu a ataliwyd o ganlyniad i COVID-19, ac felly mae'n cynnal deialog reolaidd â chyfarwyddiaethau eraill i helpu i bennu ei alw yn y dyfodol.</p>

Argymhellion i fynd i'r afael â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A6 Erbyn canol 2017, adolygu'r grwpiau sy'n cynnal trafodaethau rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud â radioleg er mwyn ystyried sut mae pob un yn cyfrannu at y gwasanaeth, gan gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> Y grŵp perfformiad wythnosol; Grŵp Gweithredol Radioleg; Pwyllgor Diogelu Radioleg; Grwpiau cyfarfod meddygon ymgynghorol; Cyfarwyddiaeth Radioleg; Tîm Rheoli Radioleg. <p>Dylai'r gwasanaeth bennu cylch gorchwyl i bob grŵp sy'n nodi'n glir beth yw aelodaeth, cwmpas a maes llywodraethu ac amllder cyfarfodydd pob grŵp.</p>	Gwyrdd	<p>Yn 2017, gwnaethom argymhell bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r grwpiau sy'n trafod materion radioleg yn rheolaidd ac yn datblygu cylch gorchwyl ar gyfer pob un ohonynt.</p> <p>Mae'r holl grwpiau radioleg wedi eu hadolygu ac mae strwythur llywodraethu ar waith. Mae gan bob grŵp gylch gorchwyl sy'n nodi amllder y cyfarfodydd, a diben, amcanion, aelodaeth, a threfniadau atebolrwydd ac adrodd pob grŵp. Adolygir pob cylch gorchwyl bob dwy flynedd.</p> <p>Mae'r strwythur rheoli yn y gyfarwyddiaeth radioleg yn sicrhau bod gan bob uwch-reolwr ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd ar draws pob safle i'w galluogi i ymateb yn briodol ac yn sydyn i unrhyw faterion sy'n codi. Dywedwyd wrthym fod o leiaf un uwch-reolwr yn bresennol bob amser yn y cyfarfodydd allweddol yn strwythur llywodraethu'r gyfarwyddiaeth.</p> <p>Roedd rhai o gyfarfodydd y gyfarwyddiaeth radioleg wedi rhoi'r gorau i weithredu yn ystod cyfnod gwaethaf yr achosion COVID-19, ond gwrthbwywyd hyn gan y tîm rheoli radioleg a fu'n cynnal cyfarfodydd ddwywaith y dydd. Mae cyfarfodydd y gyfarwyddiaeth wedi eu hadfer yn y cyfamser.</p>
<p>A7 Adolygu adroddiadau ar berfformiad y gwasanaeth radioleg i sicrhau eu bod yn rhoi digon o wybodaeth i'r grwpiau a</p>	Gwyrdd	<p>Yn ein hadroddiad yn 2017, gwnaethom nodi y gellid cryfhau adroddiadau perfformiad radioleg i sicrhau bod aelodau grŵp a phwyllgor yn gweld yn llawn y materion allweddol.</p>

Argymhellion i fynd i'r afael â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>phwyllgorau sy'n eu cael er mwyn sicrhau bod aelodau grwpiau a phwyllgorau'n cael gweld yn glir y materion allweddol sy'n berthnasol i'r gwasanaeth. Dylai'r gwasanaeth ystyried cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> data am y galw a chapasiti; eglurhad o newidiadau mewn perfformiad ers y sefyllfa flaenorol; data meincnodi. 		<p>Mae'r gwasanaeth radioleg yn cynnal cyfarfod Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth wythnosol pan gaiff yr holl ddata perfformiad eu hadolygu. Caiff unrhyw amrywiadau mewn perfformiad eu hystyried yn y cyfarfod hwn – nodir camau gweithredu ar gyfer gwella perfformiad a chynhelir cofnod gweithredu i sicrhau bod y cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu yn cael ei fonitro. Fel yr amlinellir yn adran 'crynodeb o'r cynnydd' Argymhelliad 6, rhoes cyfarfodydd wythnosol tîm Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth y gyfarwyddiaeth y gorau i weithredu pan oedd y pandemig ar ei waethaf, ond ystyriwyd materion Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y cyfarfodydd ymateb i COVID-19 ddwywaith y dydd.</p> <p>Mae'r gyfarwyddiaeth radioleg yn cynnal cyfarfodydd dysgu ac anghysondeb misol er mwyn adolygu unrhyw faterion adrodd a monitro ansawdd yr adroddiadau.</p> <p>Yn flaenorol, bu ymarfer casglu data Meincnodi'r GIG Cenedlaethol a oedd yn cwmpasu gwasanaethau radioleg, ond daeth hyn i ben yn 2018. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi bwriadu casglu'r un data at ddefnydd mewnol, megis dadansoddi tueddiadau, yn 2019-20, ond bu'n rhaid gohirio hyn tan 2021-22.</p> <p>Mae angen i'r Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth Glinigol lawrlwytho gwybodaeth am berfformiad o RADIS â llaw. Ni all y rheolwyr gwasanaeth echdynnu'r data o RADIS yn rhwydd ar eu pennau eu hunain. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei godi gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ond ni ddarparwyd ateb hyd yma.</p> <p>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd wybodaeth am ôl-groniadau/gweithgareddau i'r Grŵp Gwasanaethau Hanfodol Delweddu cenedlaethol a ffurfiwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod COVID-19 er mwyn adolygu effaith y pandemig ar wasanaethau radioleg ledled Cymru.</p>

Argymhellion i fynd i'r afael â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A8 Cymryd camau pellach i ddatblygu ei raglen amnewid cyfarpar i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) am gynnwys rhestr o gyfarpar sy'n nodi'r gwneuthurwr, rhif cyfresol, blwyddyn gweithgynhyrchu a blwyddyn gosod.</p>	<p>Gwyrdd</p>	<p>Mae gan y gyfarwyddiaeth radioleg restr offer sy'n bodloni gofynion IR(ME)R⁴ ac mae'n cael ei monitro'n ofalus a'i diweddarau fel y bo'n briodol gan y rheolwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am asedau.</p> <p>Mae Grŵp Amnewid Cyfalaf Radioleg sy'n cwrdd yn fisol i reoli pob prosiect cyfalaf o'r cam cynllunio i weithredu; ataliwyd y grŵp hwn pan oedd COVID-19 ar ei waethaf, ond y mae wedi aildechrau cwrdd erbyn hyn.</p> <p>Mae'r rhaglen ailosod offer sydd ar waith wedi sicrhau cyllid i nifer o brosiectau yn 2021-22, gan gynnwys gosod sganiwr CT newydd yn Ysbyty Ystrad Fawr, ac ystafelloedd cyffredinol yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Gwynllyw. Roedd llawer o waith symud offer yn ystod COVID-19, felly roedd cofrestr asedau gadarn a chyffredol yn hanfodol.</p> <p>Mae'r gwasanaeth radioleg yn gweithio gyda staff caffael i gyflwyno system tagio asedau electronig a fydd yn caniatáu i offer gael eu harchwilio o bell heb yr angen i darfu ar ddefnydd yr offer.</p>
<p>A9 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r system llais G2 sy'n cael ei defnyddio gan radiolegwyr i bennu ffyrdd o'i gwneud yn fwy dibynadwy a rheoli'r risgiau sy'n codi pan na fydd y system yn gweithio fel y bwriadwyd.</p>	<p>Disodlwyd</p>	<p>Nid yw radioleg yn defnyddio system leferydd G2 mwyach; defnyddir y gwasanaeth adnabod llais ar gyfer llif gwaith clinigol a ddarperir gan Fujifilm erbyn hyn. Mae'r gwasanaeth gan Fujifilm wedi gwella dibynadwyedd, ond mae rhai problemau cyflymder o hyd oherwydd capasiti rhwydwaith y gweinydd canolog a ddefnyddir gan GIG Cymru.</p> <p>Mae'r Rheolwr TG Clinigol ar gyfer Radioleg yn gweithio gyda gwasanaeth TG y Bwrdd lechyd a Fujifilm yn rheolaidd i gynorthwyo gwelliant parhaol.</p>

⁴ Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.